# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

**(O Bell Trwy Teams)**

**<u>Aelodau sy'n Bresennol:</u>** **<u>Dydd Mercher, 30 Medi 2020</u>**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd M.Harvey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, S.A.Knoyle, S.Miller, J.D.Morgan, S.Paddison, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Evans, A.Jarrett, N.Pearce, S.Phillips, C.Davies, C.Griffiths, K.Jones, C.Furlow-Harris, T.Davies, C.Plowman, H.Jones a/ac M.Roberts |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees a/ac P.D.Richards |

---

## 1. <u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- 29 Ionawr 2020
- 5 Chwefror 2020
- 12 Chwefror 2020
- 19 Chwefror 2020
- 5 Mawrth 2020
- 21 Mai 2020
- 25 Mehefin 2020
- 23 Gorffennaf 2020
- 30 Gorffennaf 2020

## 2. <u>CRAFFU CYN PENDERFYNU</u>

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor i ystyried parhad casgliadau tecstilau ar ymyl y ffordd.

Gofynnodd Aelodau sut byddai'r grwpiau cymunedol neu'r banciau tecstilau yn gallu cael pris ymarferol, os na allai'r cyngor ei gael, drwy gasglu o ymyl y ffordd Eglurwyd nad oedd marchnad ar gyfer y tecstilau cymysg yr oedd y cyngor yn eu casglu; roedd marchnad ar gyfer dillad ailddefnyddiadwy oedd wedi'u didoli, ond pe bai'r cyngor yn didoli'r tecstilau cymysg, byddai angen i'r incwm fod yn fwy na chost y didoli er mwyn iddo fod yn ddichonadwy i'r cyngor, a chadarnhawyd gan swyddogion mai nid fel yna yr oedd hi.

Holwyd a oedd gan y cyngor farchnad am decstilau a gasglwyd yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff cartref (CAGC). Amlygodd swyddogion nad oedd gan y cyngor farchnad ar gyfer ailgylchu, a bod y farchnad yn y sector gwirfoddol a oedd yn barod i fynd ati i ddidoli'r tecstilau cymysg. Fodd bynnag roedd gan y cwmni gwastraff, FCC Environment, sy'n gweithredu safleoedd y cyngor ar hyn o bryd, fynediad at y marchnadoedd hynny. Cadarnhawyd bod y tecstilau a gasglwyd yn CAGC y cyngor yn mynd i gael eu hanfon i'w didoli.

Awgrymodd swyddogion y gallai aelodau rannu eu profiadau cymunedol â'i gilydd i drosglwyddo gwybodaeth mewn perthynas â threfniadau eraill er mwyn cael mynediad at ailgylchu, gan fod nifer o fannau 'Cash for Clothes' wedi'u trefnu ledled y fwrdeistref sirol; nodwyd hefyd y gallai swyddogion rannu manylion partïon y gwyddys eu bod yn cynnig arian parod am ddillad, ac yn amodol ar gymeradwyaeth, fanylion cynrychiolwyr cymunedol sy'n trefnu digwyddiadau. Amlygodd Aelodau fod cyfle i godi arian ar gyfer y gymuned drwy 'Cash for Clothes', a hyd yn oed gyda'r pandemig presennol, gellid ei wneud yn ddiogel a gellid dilyn rheolau cadw pellter cymdeithasol. Ychwanegwyd bod angen i Aelodau fod yn ymwybodol bod llawer o decstilau yn mynd i safleoedd tirlenwi yn y pen draw oherwydd bod llai o hen ddillad yn cael eu casglu ar hyn o bryd.

O ran amserlenni, pe bai'r gwasanaeth casglu o ymyl y ffordd yn dod i ben, nodwyd y byddai angen rhoi o leiaf un mis o rybudd, a digon o amser hefyd i hysbysu'r cyhoedd o'r newid.

Gofynnodd Aelodau a fyddai'r adnoddau casglu'n cael eu cadw e.e. cerbydau, pe bai'r amgylchiadau economaidd yn newid ar gyfer casglu o ymyl y ffordd, a chadarnhaodd swyddogion y byddai; Ychwanegwyd y byddai dwy flynedd yn mynd heibio cyn bod angen newid unrhyw un o'r cerbydau cyntaf.

Mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg casglu deunyddiau oherwydd y pandemig a'r cyfyngiadau symud presennol; pe bai hyn yn parhau am

amser hir, gallai'r deunyddiau gael eu gwaredu mewn safle tirlenwi yn y pen draw, a/neu gael eu tipio'n anghyfreithlon yn lle. Nodwyd bod y cyngor yn gweithio'n unol â'r strategaeth genedlaethol sy'n bolisi sy'n annog lefel uchel o ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio; caiff y deunyddiau na all y cyngor eu hailddefnyddio, eu hailgylchu neu eu compostio i weithfeydd Energy for Waste yn hytrach na safleoedd tirlenwi. O ran aelodau'r cyhoedd y gallai fod ganddynt ddeunyddiau ychwanegol, nodwyd bod cynllun eithrio'r cyngor yn dal i weithredu fel y gall y cyhoedd wneud cais, ynghyd â'r gwasanaethau wythnosol a phythefnosol; felly ni ddylai fod rheswm pam na ddylai preswylwyr waredu eu gwastraff yn briodol. Ychwanegodd swyddogion y byddent yn parhau i adolygu'r wybodaeth y mae'r cyngor yn ei chyhoeddi o ran tecstilau.

Amlygwyd bod y safle CAGC agosaf ar gyfer Cwm Tawe Uchaf a Dyffryn Aman yng Nghwmtwrch Isaf, safle sy'n cael ei rannu â Chyngor Powys; Gofynnodd Aelodau a oedd preswylwyr Castell-nedd Port Talbot yn gallu defnyddio'r safle hwn o hyd oherwydd y cyfyngiadau symud lleol presennol. Rhoddwyd cyngor cyfreithiol ar y geiriad presennol yn rheoliadau diweddar Llywodraeth Cymru ynghylch pryd y gellid defnyddio'r gwasanaethau hyn.

Cynigiwyd ac eiliwyd newid ffurfiol i bwynt (i) yr argymhelliad a geir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd:-

(i) Mae'r cyngor yn peidio â chasglu tecstilau o ymyl y ffordd ac yn newid ei farchnata'n unol â hyn, gan roi rhybudd o ddeufis i'r cyhoedd; a,

(ii) Bydd swyddogion yn gweithio gydag unrhyw wasanaethau lleol sy'n barod i dderbyn a/neu dalu am decstilau, i helpu i hyrwyddo'r nifer cynyddol o ddigwyddiadau cymunedol a'r defnydd o gyfleusterau 'dod â phethau' fel y rheini a ddarperir mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref y cyngor.

Galwyd enwau at ddibenion penderfynu ar y bleidlais; cymeradwywyd y newid o ganlyniad i alw'r enwau.

Yn dilyn proses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

**CADEIRYDD**